



*Mae'r Ddogfen Bolisi hon yn manylu ar bolisi'r Brifysgol ar Beidio ag Ysmygu.*

***Mae'r Polisi'n berthnasol i:***

- *Yr Holl Staff, Myfyrwyr, Contractwyr ac Ymwelwyr.*
- *Pob Coleg ac Adran.*
- *Tir ac Adeiladau'r Brifysgol.*
- *Cerbydau o eiddo'r brifysgol, neu a brydlesir neu a rentir ganddi.*

***Nid yw'r Polisi'n berthnasol i:***

- *Tir cyhoeddus neu breifat nad yw'r Brifysgol yn berchen arno nac yn ei reoli.*

Dyddiad gweithredu: 1 Mai 2012

***Atodiad Gweithredol:***

Defnydd o sigaréts Electronig

Mae'r Brifysgol o'r farn y dylai sigaréts electronig dod o fewn y Polisi Di- Ysmygu . O ganlyniad, ni fydd cael defnyddio sigaréts electronig o fewn unrhyw adeilad y Brifysgol nac o fewn 5 metr i unrhyw adeilad.

Dyddiad gweithredu: 25<sup>ain</sup> Tachwedd 2014

## 1. DATGANIAD POLISI

Mae ysmegu wedi'i wahardd o fewn holl adeiladau'r Brifysgol ac o fewn cerbydau sydd wedi'u llogi a'u prydlesu ganddi, neu'n eiddo iddi. Ar dir y Brifysgol, ni chaiff neb ysmegu o fewn pum medr i unrhyw adeilad, ac eithrio ardaloedd ysmegu dynodedig a chytunwyd gan y Brifysgol ..

Gall y Brifysgol hefyd, yn ôl ei doethineb, gyflwyno cyfyngiadau eraill ar ysmegu.

## 2. DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL A SIFIL

Mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol i weithredu fel a ganlyn:

- i. Atal ysmegu o fewn unrhyw weithle.
- ii. Cymryd camau effeithiol i sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac eraill y bo busnes y Brifysgol yn effeithio arnynt.

## 3. RISGIAU I IECHYD

Erbyn hyn, cydnabyddir bod mwg baco yn yr amgylchedd yn berygl i iechyd ysmygwyr, a hefyd i bobl nad ydynt yn ysmegu, a hynny trwy ysmegu goddefol. Yn ogystal â chreu perygl i bobl gael clefydau y gellid eu hatal a marw o flaen eu hamser, gall ysmegu hefyd achosi llid ar y llygaid, y gwddf a'r llwybr resbiradu a gwneud y fogfa yn waeth.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu amgylchedd di-fwg i bobl nad ydynt yn dymuno ysmegu na dod i gysylltiad â mwg. Gobeithir hefyd y bydd y Polisi hwn yn annog a hybu iechyd.

## 4. CYMORTH I YSMYGWYR

Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn rhoi cyngor ac arweiniad i aelodau o'r staff sy'n dymuno rhoi'r gorau i smegu. Mae cyngor i fyfyrwyr ar gael trwy Wasanaethau Myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr ac o'r Feddygfa sydd wedi'i chomisiynu gan y Brifysgol.

Mae cymorth hefyd ar gael o lawer o Asiantaethau ar draws Cymru, e.e. y Llinell Gymorth i Ysmygwyr yng Nghymru.

## 5. GORFODI

Bernir bod anufuddhau i'r Polisi Dim Ysmegu hwn yn dramgwydd disgyblu. Bernir bod ysmegu mewn mannau tra sensitif, megis labordai, ystafelloedd storio, neu ger defnyddiau hylosg, yn gamymddygiad difrifol, ac mae'n bosibl y cymerir camau disgyblu ar unwaith.

## 6. MONITRO AC AROLYGU

Bob hyn a hyn, bydd Penaethiaid Colegau, Ysgolion ac Adrannau yn cynnal arolygon i fonitro effeithiolrwydd y Polisi o fewn eu hadeiladau a'u gweithrediadau.

**Diwedd**